Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

**Cylch Meithrin Coed Mawr**
**Ysgol Bro Dewi**
**Bron Y De**
**Bangor**
**Gwynedd**
**LL57 4TL**

**Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2014**

**gan**

**Wil Williams**
**Arolygydd Cofnodol**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| Barn | Yr hyn mae'r farn yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2014: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 28/04/2014**

## Cyd-destun

Mae Cylch Meithrin Coed Mawr yn lleoliad meithrin cofrestredig sy'n cyfarfod mewn ystafell ddosbarth yn Ysgol Bro Dewi, sydd ar gyrion Dinas Bangor. Mae'n darparu addysg cyn-ysgol i blant Coed Mawr a Glanadda.

Mae'r lleoliad yn derbyn plant o bob gallu a chefndir i'r sesiynau. Yn ystod yr arolygiad, nid oedd yr un plentyn ag anghenion dysgu ychwanegol yn mynychu'r lleoliad. Mae llawer o blant sy'n dod i'r lleoliad o dras ethnig ac yn cynrychioli ystod eang o ieithoedd lleiafrifol. Nid oes yr un plentyn gyda Chymraeg yn brif iaith y cartref.

Mae'r lleoliad yn darparu sesiynau o dair awr am bum bore'r wythnos ar gyfer plant dwy a hanner i bedair oed, er bod y nifer o sesiynau a fynychir gan unigolion yn amrywio yn ôl dymuniad rheini. Mae mwyafrif y plant yn mynychu'r lleoliad yn y boreau a dosbarth meithrin yr ysgol yn ystod y prynhawniau. Mae dau blentyn yn cael eu hariannu gan yr awdurdod lleol. .

Mae plant yn cael eu haddysgu gan arweinydd a dwy ymarferydd. Maent oll wedi'u cymhwyso'n briodol ar gyfer addysgu'r blynyddoedd cynnar.

Arolygwyd y lleoliad ddiwethaf gan yr Arolygaeth Gofal a Gwasanaeth Cymdeithasol Cymru yng Ngorffennaf 2013 a chan Estyn yn Chwefror 2008.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

**Perfformiad presennol**

Mae perfformiad yn dda oherwydd bod:

- egwyddorion y Cyfnod Sylfaen yn cael eu hadlewyrchu'n gryf yn ansawdd y cwricwlwm;
- gweithgareddau diddorol a symbylol yn annog plant i ddysgu'n effeithiol;
- darpariaeth dda ar gyfer datblygu medrau llythrennedd a rhifedd;
- ansawdd addysgu ac asesu gan mwyaf, yn dda;
- anogaeth ar blant i fod yn garedig gyda'i gilydd ac i fod yn onest a theg gydag eraill;
- y lleoliad yn gymuned gynhwysol lle caiff pob plentyn fynediad cyfartal at bob maes dysgu; a
- chyflenwad da o adnoddau ar gyfer pob maes dysgu.

**Rhagolygon gwella**

Mae rhagolygon gwella'n dda oherwydd bod:

- yr arweinydd a'r ymarferwyr yn cydweithio'n agos iawn fel tîm ac yn cyflawni eu rolau'n effeithiol;
- aelodau'r pwyllgor rheoli yn ymgymryd â'u dyletswyddau'n effeithiol;
- parodrwydd yr arweinydd i dderbyn ac i weithredu ar gyngor yn cyfrannu'n arwyddocaol tuag at ddatblygiad y lleoliad;
- y lleoliad yn defnyddio hunan-arfarnu'n effeithiol er mwyn canfod cryfderau'r lleoliad a'r meysydd i'w datblygu;
- gweithgareddau partneriaethau yn cyfrannu'n dda at gyflawniadau a lles plant;
- trefniadau effeithiol ar gyfer rheoli perfformiad staff ac adnabod eu hanghenion proffesiynol; a'r
- lleoliad yn rhoi gwerth da am arian.

## Argymhellion

A1. Sicrhau bod ymarferwyr yn ymyrryd yn fwy effeithiol yn nysgu plant.

A2. Sicrhau bod ymarferwyr yn cymryd rhan fwy gweithredol yn y trefniadau asesu.

A3. Creu mwy o gysylltiadau gyda'r gymuned leol.

A4. Darparu mwy o brofiadau dysgu mentrus a chyffrous yn yr ardal tu allan.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**
Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | |
|---|---|

Nid oes unrhyw adroddiad ar gynnydd plant, safonau yn natblygiad eu medrau, yr iaith Gymraeg a lles. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant perthnasol adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae egwyddorion y Cyfnod Sylfaen yn cael eu hadlewyrchu'n gryf yn ansawdd y cwricwlwm sy'n cael ei ddarparu ar gyfer y plant. Mae ymarferwyr yn darparu ystod eang o weithgareddau diddorol a symbylol sy'n annog plant i ddysgu'n effeithiol a gwneud cynnydd da ar draws pob maes dysgu. Mae'r cwricwlwm yn adeiladu'n systematig ar wybodaeth, dealltwriaeth a medrau presennol wrth i blant symud trwy'r Cyfnod Sylfaen.

Mae'r ystod eang o brofiadau dysgu yn cymell plant i ffurfio perthnasau clos ag oedolion a phlant eraill, i fentro ac i arbrofi gyda phrofiadau newydd. Mae'r cyfleoedd cyson a gânt i wneud dewisiadau yn galluogi'r rhan fwyaf o blant i wneud cynnydd da tuag at ddod yn ddysgwyr annibynnol.

Trwy gynllunio pwrpasol, mae ymarferwyr yn sicrhau bod plant yn caffael medrau llythrennedd, rhifedd, technoleg gwybodaeth a chyfathrebu a medrau meddwl ar draws y meysydd dysgu. Yn ystod sesiynau torfol, mae plant yn cael eu hannog i wrando'n astud ar gyfraniadau plant eraill, i ofyn cwestiynau ac i siarad am faterion sydd o bwys iddynt hwy. Mae'r profiad o chwarae rôl yn yr ysbyty yn darparu cyfleoedd da iddynt arbrofi gydag iaith ac i ddatblygu hyder yn eu hail iaith, boed hynny yn Gymraeg neu Saesneg. Yn ystod amser cylch, caiff plant eu hannog i ymuno mewn rhigymau a chaneuon a chânt gyfleoedd rheolaidd i ddilyn straeon sy'n cael eu darllen iddynt gan ymarferydd. Mae cyfleoedd da yn yr ardaloedd dysgu i blant arbrofi gyda gwneud marciau ar gyfer ystod eang o ddibenion, megis er mwyn ysgrifennu eu henwau neu lunio rhestrau.

Mae'r mynediad cyson sydd gan blant at gyfrifiaduron a theganau electronig yn rhoi cyfleoedd da iddynt ymarfer eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu.

Mae'r defnydd cyson o Gymraeg gan ymarferwyr yn cynyddu dealltwriaeth plant o'r iaith ac yn rhoi'r hyder iddynt ddechrau defnyddio'r iaith eu hunain. Mae darpariaeth addas ar gyfer hybu'r dimensiwn Cymreig, er enghraifft dathlu Gŵyl Santes Dwynwen.

**Addysgu: Da**

Mae gan yr ymarferwyr wybodaeth a dealltwriaeth briodol o'r Cyfnod Sylfaen, ac mae ganddynt ddisgwyliadau uchel ar gyfer dysgu plant. Maent yn darparu profiadau dysgu diddorol ar draws pob maes dysgu ac yn defnyddio ystod dda o strategaethau addysgu sy'n sicrhau ymglymiad plant i'w tasgau. Trwy gynllunio gofalus, mae cydbwysedd addas rhwng gweithgareddau sy'n cael eu dewis gan y plentyn a'r rhai

sy'n cael eu harwain gan ymarferwyr. Gwna'r ymarferwyr ddefnydd dychmygus o amrywiaeth o adnoddau i ddenu diddordeb plant ac i wella dysgu. Mae ffocws clir i gymorth oedolion a, gan mwyaf, maent yn cyfrannu'n dda at ansawdd dysgu plant.

Er bod ymarferwyr yn cyd-chwarae gyda phlant yn rheolaidd, yn arbennig yn ystod tasgau ffocws, nid ydynt yn manteisio digon ar y sefyllfa er mwyn herio syniadau plant a symud y dysgu yn ei flaen.

Mae trefniadau effeithiol ar gyfer asesu a chofnodi cynnydd plant ar draws y chwe maes dysgu trwy gydol eu hamser yn y lleoliad. Mae hyn yn galluogi ymarferwyr i weithredu'n fuan os tybir bod plentyn angen cymorth ychwanegol ac i gynllunio camau nesaf yn nysgu plant.

Mae'r llyfryn 'Fy Stori' a gynhyrchir ar gyfer pob plentyn ag sy'n cynnwys ffotograffau diddorol o bob un ar waith yn yr ardaloedd dysgu, yn fodd effeithiol o adrodd i bob rhieni ar gynnydd eu plentyn yn ystod ei amser yn y lleoliad.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r lleoliad yn gwneud trefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed iach. Mae'r profiadau dyddiol a gaiff plant wrth chwarae yn yr ardal y tu allan yn rhoi cyfleoedd da iddynt ymarfer eu medrau personol ac i gynyddu eu lefelau ffitrwydd.

Yn ystod eu hymwneud dyddiol â phlant, mae ymarferwyr yn pwysleisio'n gryf yr angen i bawb fod yn garedig gyda'i gilydd, i fod yn onest a theg ac i ymddwyn mewn ffordd gyfrifol. Mae hyn yn help mawr i'r plant ddysgu gwahaniaethu rhwng yr hyn sy'n iawn a'r hyn sydd ddim yn iawn. Mae'r cyfleoedd rheolaidd i blant ymgymryd â chyfrifoldebau, megis 'Helpwr Heddiw,' ac i wneud dewisiadau eu hunain ynghylch eu dysgu yn cyfrannu'n dda tuag at eu datblygiad personol a chymdeithasol.

Mae ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda ac yn darparu arweiniad clir iddynt yn ystod sesiynau. Maent yn gwybod sut i gael mynediad at gymorth proffesiynol megis gan seicolegydd addysg neu therapydd lleferydd, os cyfyd yr angen.

Mae'r trefniadau sefydlu effeithiol yn helpu plant i ymgartrefu'n gyflym a didrafferth yn y lleoliad. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae ymarferwyr yn nodi anghenion dysgu plant yn fanwl pan fyddant yn ymuno â'r lleoliad ac yn sicrhau bod yr anghenion hynny'n cael eu bodloni. Enghraifft dda o hyn yw'r cymorth da a ddarperir i'r nifer helaeth o blant nad ydynt yn siarad na Chymraeg na Saesneg.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r lleoliad yn gymuned gynhwysol lle caiff pob plentyn fynediad cyfartal at bob maes dysgu a gweithgareddau a ddarperir ar eu cyfer. Mae pwyslais cryf ar ddatblygu agweddau goddefgar a sicrhau bod plant a staff yn rhydd o ymyrraeth. Mae gan y lleoliad ddigon o ymarferwyr sydd â gwybodaeth ac arbenigaeth ddigonol i addysgu pob agwedd o gwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. Mae ymarferwyr yn llwyddo i

greu amgylchedd symbylus lle y gall pob plentyn fanteisio’n llawn ar y profiad dysgu a datblygu gwerthoedd ac agweddau cadarnhaol.

Mae cyflenwad da o adnoddau ar gyfer pob maes dysgu ac maent wedi’u cyfatebu’n ofalus i anghenion datblygu a dysgu pob unigolyn. Er bod y lleoliad yn gwneud defnydd dyddiol o’r ardal y tu allan i’r dosbarth, ychydig iawn o brofiadau mentrus a chyffrous sydd ar gael i ysgogi’r plant.

Mae'r ystafell ddosbarth helaeth, sy’n cael ei defnyddio gan ddosbarth meithrin yr ysgol yn ystod y prynhawniau, o ansawdd da ac yn cael ei defnyddio’n llawn gan blant ac ymarferwyr.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw’r arweinyddiaeth a’r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae’r arweinydd a’r ymarferwyr yn cydweithio'n dda a, gan mwyaf, maent yn cyflawni eu cyfrifoldebau addysgu’n dda. Cânt eu cefnogi gan arweinydd cydwybodol sy'n llwyddo i greu ethos lle mae plant a staff yn teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi. Mae pob un o’r staff yn deall ac yn cyflawni ei rolau’n effeithiol ac yn rhannu gwerthoedd cytûn am ddysgu, ymddygiad a pherthynas. Mae'r arweinydd yn rheoli sesiynau’n effeithiol ac yn gwneud defnydd da o amser ac arbenigedd staff. Mae addysgu a dysgu’n cael eu rheoli'n dda ac mae polisïau'r lleoliad yn cael eu gweithredu’n gydwybodol.

Mae ymarferwyr yn gwneud yn siŵr bod y Cyfnod Sylfaen a blaenoriaethau cenedlaethol eraill yn cael eu cyflwyno'n llwyddiannus. Fodd bynnag, nid ydynt yn cymryd rhan weithredol yn y prosesau asesu, ac yn arbennig mewn perthynas â chadw cofnodion o ymateb plant i’w tasgau. Mae hyn yn lleihau effeithiolrwydd y drefn. Mae'r berthynas gyda phlant, y rhieni a’r ysgol gynradd y mae’r lleoliad wedi’i lleoli ynddi yn gadarnhaol ac yn cyfrannu'n sylweddol at greu ymdeimlad o gymuned.

Mae’r pwyllgor rheoli bychan sy’n cynnwys pennaeth yr ysgol gynradd ynghyd â pherson cofrestredig arall sydd hefyd yn drysorydd, yn ymgymryd â dyletswyddau rheolaeth y lleoliad yn effeithiol.

**Gwella ansawdd: Da**

Gydag arweiniad athrawes ymgynghorol yr awdurdod lleol, mae'r lleoliad yn ymgymryd â hunan-arfarniad yn flynyddol ac yn defnyddio'r broses yn effeithiol er mwyn canfod cryfderau'r lleoliad a'r meysydd i'w datblygu. Mae cyfleoedd addas i rieni, ymarferwyr ac aelodau'r pwyllgor rheoli gyfrannu i'r broses.

Mae parodrwydd yr arweinydd i dderbyn ac i weithredu ar gyngor allanol, megis gan athrawes gynhaliol yr awdurdod lleol, yn gryfder amlwg sy’n cyfrannu’n arwyddocaol at ddatblygiad y lleoliad.

Mae blaenoriaethau a ddaw i’r amlwg trwy hunan-arfarnu yn cael eu hymgorffori’n effeithiol mewn cynllun datblygu pwrpasol sy’n nodi’n glir sut y bwriedir eu rhoi ar waith.

Gwnaeth y lleoliad gynnydd da mewn tri o'r pedwar argymhelliad a nodwyd yn adroddiad yr arolygiad diwethaf. Mae cryfhau’r bartneriaeth gyda’r gymuned yn parhau i fod angen sylw pellach.

**Gweithio mewn partneriaeth: Digonol**

Mae gweithgareddau partneriaethau, ar y cyfan, yn cyfrannu'n dda at gyflawniadau a lles plant.

Mae partneriaeth dda rhwng y lleoliad a rhieni. Caiff y rhieni eu hysbysu'n rheolaidd am bob agwedd ar waith y lleoliad a chymerir camau gweithredol i'w cynnwys yn yr holl weithgareddau a drefnir. Prin iawn yw’r cysylltiadau rhwng y lleoliad a’r gymuned leol.

Mae partneriaeth gynhyrchiol gydag Ysgol Bro Ddewi a’r lleoliad yn manteisio’n sylweddol ar barodrwydd yr ysgol i rannu ei hadnoddau a’i harbenigedd. Mae’r berthynas agos sydd rhwng y lleoliad a dosbarth meithrin yr ysgol yn sicrhau bod parhad a dilyniant yn addysg y plant wrth iddynt drosglwyddo o’r lleoliad i’r ysgol.

Mae ymweliadau, adroddiadau a chyngor proffesiynol cyson athrawes ymgynghorol yr awdurdod lleol yn cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad y lleoliad. Mae’r arweinydd yn ogystal yn derbyn cefnogaeth reolaethol fuddiol gan swyddog datblygu’r Mudiad Meithrin.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae trefniadau effeithiol ar gyfer rheoli perfformiad staff sy’n cyfrannu’n dda tuag at adnabod anghenion proffesiynol ymarferwyr. Mae'r sesiynau hyfforddi rheolaidd a gynhelir gan yr awdurdod addysg a'r Mudiad Meithrin yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ymarferwyr ddiweddaru eu gwybodaeth a'u medrau.

Mae'r lleoliad wedi'i staffio'n briodol i addysgu'r cwricwlwm yn effeithiol. Gwna'r arweinydd ddefnydd effeithiol o amser a phrofiad staff er mwyn sicrhau bod gofal a chynhaliaeth dda ar gael i bob plentyn.

Mae trysorydd y pwyllgor rheoli yn cadw cofnod manwl iawn o sefyllfa gyllidol y lleoliad ac yn gwneud yn siŵr bod gwariant yn cael ei reoli'n ofalus ac yn unol ag anghenion datblygu'r lleoliad. Mae penderfyniadau gwariant yn cael eu harfarnu'n ofalus i wneud yn siŵr eu bod yn cael effaith uniongyrchol ar safonau cyflawniad, cynnydd a lles plant. Mae'r lleoliad yn rhoi gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Derbyniwyd llai na 10 ymateb.  Ni chaiff unrhyw ddata ei ddangos.

## Atodiad 2

**Yr arolygydd cofnodo**

| | |
|---|---|
| Mr Wil Williams | Arolygydd Cofnodol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Y Gymdeithas Gwarchod Plant Genedlaethol (NCMA)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |
| **Proffil asesu datblygiad** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; |

| | |
|---|---|
| **plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy’n anelu at roi’r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau’r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |